**EITEM AR YR AGENDA: 19**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**15fed Mawrth 2010**

## STRWYTHUR PEILOT AR GYFER DIOGELWCH TÂN

**Adroddiad gan Richard Fairhead, Uwch Reolwr Diogelwch Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am y peilot ar gyfer Strwythur newydd ar gyfer Diogelwch Tân, a fydd yn cael ei roi ar waith ar y 5ed o Ebrill 2010.

## Cefndir

2 Mae gan y swyddogaeth Diogelwch Tân ddau brif faes, sef Deddfwriaethol a Chymunedol. Ers 2004, mae'r ddau faes hwn wedi cael ei reoli ym mhob ardal sirol yng Ngogledd Cymru gan Reolwr Diogelwch y Sir sy'n atebol i'r Rheolwr Deddfwriaeth a'r Rheolwr Diogelwch Cymunedol.

3 Ar hyn o bryd mae'r gwaith Deddfwriaethol yn cael ei gyflawni gan ddau Swyddog Gorfodaeth Diogelwch Tân (FSEO) a nifer amrywiol o Swyddogion Archwilio Diogelwch Tân (FSIO). Mae Rheolwyr Diogelwch y Sir yn treulio 50% o'u hamser yn rheoli'r gwaith hwn.

4 Roedd niferoedd y Swyddogion Gorfodaeth ymhob sir yn seiliedig ar hen fformiwla (Deddf Rhagofalon Tân 1971. Canllaw Rhagofalon Tân mewn gweithleoedd presennol sydd angen Tystysgrif Tân). Cyfrifwyd niferoedd y Swyddogion gan ddefnyddio canllawiau oedd yn seiliedig ar weithio gyda Deddf Rhagofalon Tân 1971 ac anghenion gweithredol y Gwasanaeth. Ni chafodd hyn ei newid i adlewyrchu ad-drefnu'r Gwasanaeth yn 2004 a dyfodiad y Gorchymyn Diogelwch Tân yn 2006.

5 Hefyd, roedd cyhoeddiad Adroddiad Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân yn 2007 yn newid cadarnhaol o ran pwyslais yn y ffordd roedd y Gwasanaeth yn darparu Diogelwch Cymunedol. Arweiniodd y ffocws hwn at Reolwr Diogelwch y Sir yn neilltuo mwy o amser i ddatblygu a chynnal partneriaethau gyda phartneriaid allweddol lleol. Mae canlyniadau hynny wedi golygu bod y Gwasanaeth wedi cynyddu niferoedd yr Archwiliadau Diogelwch Tân 400% ac wedi datblygu partneriaethau er mwyn adnabod a chynorthwyo'r rhai sydd mwyaf agored i berygl yng Ngogledd Cymru.

6 Mae hyn wedi arwain at sefyllfa lle mae gan Reolwyr Diogelwch y Siroedd lai o amser i'w neilltuo i ddiogelwch tân deddfwriaethol, ac o bosib mae hynny wedi lleihau'r effaith y gallai'r Gwasanaeth ei gael mewn meysydd sy'n dod dan y Gorchymyn Diogelwch Tân.

## Gwybodaeth

7 Bydd y Peilot yn ceisio ailddyrannu adnoddau a gwella'r modd y mae Diogelwch Tân Deddfwriaethol a Diogelwch Tân Cymunedol yn cael eu darparu.

8 Bydd Diogelwch Tân Cymunedol yn cael ei reoli ymhob sir gan Reolwr Diogelwch y Sir a dirprwy a fydd yn canolbwyntio ei (h)oll amser gwaith ar gynyddu a gwella'r gwaith Diogelwch Cymunedol yn yr ardal. Bydd Rheolwyr Diogelwch y Siroedd yn atebol i'r Rheolwr Diogelwch Cymunedol.

9 Bydd y gwaith Diogelwch Tân Deddfwriaethol yn cael ei wneud gan Swyddogion Gorfodaeth a Swyddogion Archwilio pwrpasol ymhob ardal, pob un yn cael ei reoli gan swyddog arweiniol ymhob ardal. Bydd tair ardal, sef Môn/Gwynedd, Conwy/Sir Ddinbych a Sir y Fflint/Wrecsam. Bydd pob swyddog arweiniol yn atebol i'r Rheolwr Deddfwriaeth, a fydd hefyd yn rheoli tîm canolog a fydd yn datblygu polisi ac yn gwella cefnogaeth i'r gwaith o ddarparu Diogelwch Tân Deddfwriaethol.

10 Trwy rannu'r ddau faes fel hyn, bydd y Gwasanaeth yn cynyddu ei allu i barhau i ddatblygu'r maes Diogelwch Cymunedol, a bydd y Gwasanaeth yn gwella ei allu i sicrhau cydymffurfiad mewn eiddo annomestig trwy'r gogledd.

11 Bydd y Peilot yn rhedeg am ddeuddeg mis, ac yn y cyfnod hwnnw cynhelir gwerthusiad llawn o'r effeithiau ar Ddiogelwch Tân Cymunedol.

**Argymhelliad**

12 Bod yr aelodau'n nodi bod y Gwasanaeth yn rhedeg Strwythur Peilot ar gyfer Diogelwch Tân, y bydd yn cael ei werthuso ac y bydd yr Aelodau'n cael gwybod beth fydd y canlyniadau.